north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 15fed TACHWEDD, 2019

**TEITL:** *Cais Adeiladu Capasiti Sefydliadol ESF*

**AWDUR:** *Nia Medi Williams – Uwch Swyddog Gweithredol, Cyngor Gwynedd*

*Barbara Burchell – Prif Swyddog Datblygu Prosiectau Ewropeaidd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu'r cynnig yn y Cynllun Busnes gan y Bwrdd Uchelgais i WEFO ar gyfer y gronfa Adeiladu Capasiti Sefydliadol ESF o Arian Strwythurol Ewropeaidd.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Dirprwyo'r hawl i Cyngor Gwynedd fel Corff Lletya i baratoi a chyflwyno'r Cynllun Busnes i WEFO ar sail cynnwys yr adroddiad hwn.

2.2. Dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr y Corff Lletya mewn ymgynghoriad gyda Cyfarwyddwr Arweiniol y Bwrdd Uchelgais ac Swyddog 151 y Corff Lletya i dderbyn cynnig grant gan WEFO yn seiliedig ar 50% o gyfanswm cost y prosiect (£5.4 miliwn) ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2018 hyd at Mehefin 2023.

2.3. Cadarnhau bydd y Bwrdd Uchelgais yn cytuno i gyfrannu 50% o arian cyfatebol yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau ac cyllideb craidd (o gyfraniadau partneriaid).

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

**4.1. Sefyllfa Bresennol**

4.1.1. Mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi bod yn gweithio ar gais Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) i ddylunio ac adeiladu'r capasiti angenrheidiol ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.1.2. Mae cam cyntaf y cais, y Tabl Rhesymeg Gweithredu (OLT) wedi'i gwblhau ac mae WEFO wedi cadarnhau y gall y Bwrdd Uchelgais fwrw ymlaen i'r Cam Cynllunio Busnes.

4.1.3. Mae'r Grŵp Swyddogion Gweithredol wedi datblygu y manylion ar gyfer y Cynllun Busnes (Cais ESF). Bydd y Cynllun Busnes drafft yn cael ei gyflwyno i WEFO yn dilyn i'r Bwrdd Uchelgais gymeradwyo'r adroddiad hwn.

**4.2. Arian ESF**

**4.2.1. Echel Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol**

4.2.2. Mae'r cais am gyllid ar gyfer Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol.

4.2.3. Mae'r Echel Blaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar Amcan Thematig (11) - Adeiladu Capasiti Sefydliadol). Mae'r cyfiawnhad ar gyfer yr echel blaenoriaeth fel a ganlyn: *Mae sail tystiolaeth gynyddol sy'n pwyntio at bwysigrwydd capasiti sefydliadol fel ffactor sy'n effeithio ar lwyddiant cymharol buddsoddiadau rhanbarthol (OECD). Felly, gall cael y capasiti cywir yn ei le chwyddo effaith buddsoddiadau rhanbarthol; gyda threfniadau aneffeithiol yn cael effaith negyddol. O ganlyniad, mae diffyg capasiti yn rhanbarthau Cymru yn risg i danseilio buddsoddiadau a wneir ar draws y gyfres gyfan o raglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yng Nghymru a'r tu hwnt. Gall gweithredu trefniadau rhanbarthol yn effeithiol integreiddio buddsoddiadau'n well mewn llefydd a gwella effeithiolrwydd ac effaith y buddsoddiadau hynny ar y cyd ac yn unigol.*

**4.3. Cynllun Busnes Hwyluswyr Gweledigaeth Twf y Bwrdd Uchelgais**

4.3.1. Bydd y grant ESF yn rhoi arian i'r rhanbarth i ddatblygu a gweithredu'r Weledigaeth Twf, drwy sefydlu Swyddfa Rhaglen.

4.3.2. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am gefnogi gweithgaredd y Bwrdd Uchelgais ac datblygu elfennau pwysig o'r Weledigaeth Twf. Bydd dyluniad a gweithgaredd y Swyddfa Rhaglen yn hyblyg, a bydd yn datblygu dros amser. Bydd yn gyfle i ddatblygu ffordd newydd o weithio yn y rhanbarth fydd yn gosod sail ar gyfer cydweithio rhanbarthol i'r dyfodol.

4.3.3. Bydd y grant ESF yn galluogi'r Bwrdd Uchelgais i ddylunio ac adeiladu capasiti ar lefel rhanbarthol (Gogledd Cymru). Er mwyn cefnogi'r newid tuag at lywodraethu rhanbarthol a gweithredu elfennau allweddol fydd yn cyfarch Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru ynghyd a'r Fframwaith Rhanbarthol gan Llywodraeth Cymru.

4.3.4. Bydd y Swyddfa Rhaglen yn cychwyn gyda tîm craidd o swyddogion wedi ariannu'n rhannol drwy'r grant ESF. I ddyddiad mae'r canlynol wedi ei penodi: Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Gweithrediadau, Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Rheolwr Rhaglen Ynni a Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo. Wrth i waith y Swyddfa Rhaglen gynyddu gyda amser, bydd cyfle i ddatblygu'r tîm craidd.

4.3.5. Mae'r cais ESF yn cynnwys swyddi ychwanegol i'r tîm craidd, sef Rheolwyr Rhaglen (Sgiliau, Thrafnidiaeth a swydd gyda rôl gyffredinol), Swyddogion Rhaglen/Prosiect (Sgiliau, Digidol, Ynni, Adfywio, Trafnidiaeth, Tir ac Eiddo), Swyddog Marchnata a Chyfathrebu, Swyddog Gweithredol, Rheolwr Prosiect ESF ac Swyddog Cefnogi Prosiect. Bydd 3 o'r swyddi yn cael ei cynnig fel swydd i graddedigion neu brentisiaid uwch.

4.3.6. Bydd mwyafrif y penodiadau i'r Swyddfa Rhaglen yn cymryd lle yn dilyn arwyddo'r Cytundeb Terfynol, ar gyfer pwrpas y cais grant rydym wedi amcan bydd mwyafrif y swyddi yn cael ei penodi yn ystod Ionawr 2021.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd dyddiad cychwyn y cais grant yn cael ei ôl-ddyddio i Gorffennaf 2018, a bydd yn dod i ben yn ystod Mehefin 2023. Drwy ôl-ddyddio y cais bydd yn galluogi'r rhanbarth i ad-hawlio costau'r Cyfarwyddwr Arweiniol oedd wedi secondio i'r Bwrdd Uchelgais, ynghyd a chefnogaeth yr Uwch Swyddog Gweithredol a'r Cefnogaeth Gweinyddol.

5.2. Mae'r cais grant i WEFO fel a ganlyn:

| **Pennawd Cyllid** | **Cost** |
|---|---|
| Costau Staff | £3.9 miliwn |
| Costau Syml (40%) [fydd yn cynnwys holl wariant arall o fewn y swyddfa rhaglen] | £1.5 miliwn |
| **Cyfanswm Cost y Prosiect** | **£5.4 miliwn** |

*(Weler 4.3.4, 4.3.5 ac 5.1 uchod am fanylion y costau staff)*

5.3. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn cyflwyno hawliadau ariannol rheolaidd i WEFO er mwyn hawlio'r grant ESF.

5.4. Mae'r ffigyrau yn yr adroddiad yn cynnwys holl gostau staff cymwys ynghyd a chostau diswyddo cymwys. Ac yn unol a chanllawiau'r grant byddwn yn hawlio swm sylfaenol wedi ei gyfrifo fel 40% o gostau staff er mwyn cynnwys yr holl wariant arall o fewn y prosiect (hyfforddiant, costau rheoli prosiect anuniongyrchol, costau i gefnogi'r hawliad, ayyb), neu ar gyfer arian cyfatebol, mae rhain yn cael ei galw'n Gostau Syml.

5.5. Mae cyfanswm cost y prosiect yn £5.4 miliwm, gyda £3.9 miliwn yn gostau staff ac £1.5 miliwn yn gostau syml (fydd yn cynnwys holl wariant arall o fewn y swyddfa rhaglen). Bydd y grant ESF ar gyfer y prosiect werth £2.7 miliwn (cyfradd grant o 50%), gyda'r gweddill o £2.7miliwn ei angen fel arian cyfatebol gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd cyfraniad arian cyfatebol gan y Bwrdd Uchelgais yn dod yn bennaf drwy gyfuniad o gyfalafu prosiectau ac cyllideb craidd (o gyfraniadau partneriaid).

5.6. Bydd costau diswyddo yn berthnasol ar gyfer y prosiect, os na fydd cytundebau staff yn cael ei ymestyn tu hwnt i gyfnod y grant ESF. Bydd y costau staff yn cynnwys costau ymddiswyddo cymwys ar gyfer staff tra'n gyflogedig gan y Swyddfa Rhaglen. Mae'n bosibl bydd costau diswyddo pellach ar gyfer swyddogion wrth gymryd i ystyriaeth ei gwasanaeth o swyddi blaenorol, dylai'r Bwrdd Uchelgais ystyried neilltuo arian mewn cronfa at y diben yma.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd cyflwyno y cais grant ac derbyn y cynnig grant yn cael ei weithredu gan Cyngor Gwynedd yn ei rôl fel corff lletya/corff atebol ar ran y Bwrdd Uchelgais sy'n cyd fynd gyda gofynion Cytundeb Llywodraethu 1.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Fel sydd wedi nodi yn yr adroddiad.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd a cymeradwywyd y Cynllun Busnes a'r strwythur staff arfaethedig gan y Grŵp Swyddogion Gweithredol ar 25 Hydref, 2019.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Corff Lletya:**

"Mae'r adroddiad yn gosod allan y materion allweddol ynglŷn a gweithredu'r cais ESF ynghyd a natur ac oblygiadau yr ariannu arfaethedig."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 y Corff Lletya):**

"Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol o'r cynnwys."